

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru

Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660

info@audit.cymru /
post@archwilio.cymru

Drwy e-bost

Cyfeirnod: LF23001/AC/343/caf
Dyddiad cyhoeddi: 19 Ionawr 2023

Annwyl Peredur


Gwaith Craffu Blynyddol y Pwyllgor Cyllid ar Swyddfa Archwilio Cymru

Ymhellach i'ch adroddiad - *Gwaith craffu blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru* - ysgrifennwn i nodi ein hymatebion i argymhellion y Pwyllgor.

Rydym yn derbyn eich holl argymhellion ac yn nodi sut rydym yn bwriadu mynd i'r afael â phob un isod:

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Archwilio Cymru yn darparu manylion am ei Strategaeth 'Gweithio'n Dda, Byw'n Dda a Bwriadu'n Dda' newydd a'i ddull tuag at ei weithredu.

Cafodd y Strategaeth Llesiant ei chymeradwyo gan y Pwyllgor Taliadau ac Adnoddau Dynol ynghyd â'r cynllun gweithredu sylfaenol ym mis Tachwedd 2021. Nod y strategaeth yw "creu a chynnal gweithlu cadarnhaol a gwydn wrth feithrin amgylchedd sy'n cefnogi ac yn galluogi ein pobl i fod yn iach ac i gynnal cydbwysedd bywyd a gwaith". Mae chwe cholofn sy'n cefnogi 'Gweithio'n dda, Byw'n dda a Bwriadu'n dda' ac mae'r cynllun gweithredu ategol yn seiliedig ar y colofnau hyn.



Rydym wedi penodi 17 o Hyrwyddwyr Llesiant o bob rhan o'r sefydliad gan gynnwys Pencampwr o'r Bwrdd ac maent yn gweithio gyda'r Pennaeth Adnoddau Dynol i roi'r strategaeth ar waith. Atseiniwyd hyrwyddwyr Llesiant i bob colofn i fod yn arweinydd i gydlynu'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r golofn ac mae arweinwyr y colofnau'n cyfarfod â Phennaeth Adnoddau Dynol yn rheolaidd i nodi meysydd y mae angen eu cyfuno a bod â chyd-destun strategol. Mae gweithredu'r strategaeth, drwy'r cynllun gweithredu, yn cael ei olrhain a'i fonitro gan y Tîm Arwain Gweithredol ac adroddir amdano yn chwarterol i'r i'r Bwrdd drwy'r Pwyllgor Taliadau ac Adnoddau Dynol.

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Archwilio Cymru yn cynnwys manylion am ei berfformiad yn erbyn y targed Dangosydd Perfformiad Allweddol blaenorol ar gyfer ymgysylltiad staff a phrofiad staff ochr yn ochr â'i dargedau diwygiedig yn 2022-23.

Dywedwyd gennym yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2022-23 y byddem yn defnyddio o leiaf sgôr meincnodi canolrif diweddaraf y CSPS fel ein targed ar gyfer ymgysylltiad staff a phrofiad staff. Rydym newydd dderbyn canfyddiadau Arolwg Pobl 2022 ac rydym yn paratoi ymateb ein rheolwyr. 60% yw'r sgôr

Tudalen 2 o 14 - Gwaith Craffu Blynyddol y Pwyllgor Cyllid ar Swyddfa Archwilio Cymru - Please contact us in Welsh or English / Cysylltwch â ni yn Gymraeg neu yn Saesneg.

ymgysylltiad gweithwyr. Nid yw'r wybodaeth feincnodi gan CSPS ar gyfer 2022 gennym eto ac mae disgwyl hon yn gynnar yn 2023. Rydym wedi gweld bod rhai meysydd wedi gwella ar draws yr 11 o themâu eraill, yn fwyaf arbennig mewn canfyddiadau o gynhwysiant a thriniaeth deg, o amcanion a phwrpas sefydliadol, ac o'm tîm. Yn siomedig rydym wedi gweld gostyngiadau mewn lefelau boddhad yn ymwneud â sicrhau adnoddau ac â llwyth gwaith. Mae'r Bwrdd ac ELT yn paratoi i ymgysylltu'n fwy amlwg ar draws y sefydliad cyfan er mwyn cael dealltwriaeth ddyfnach o achosion sylfaenol newidiadau mewn lefelau ymgysylltu yn ystod chwarter pedwar 2022/23.

Argymhelliad 3. Wrth ystyried ei drefniadau ar gyfer arolygu staff yn y dyfodol, mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Archwilio Cymru yn ystyried cadw Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil; yn asesu offer eraill i wella ei effeithiolrwydd ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar fodelau arolwg amgen a werthuswyd.

Rydym wrthi'n datblygu ein trosolwg o ofynion cyn cychwyn ar ymarfer caffael i asesu sut y gallwn wella ein gallu o ran casglu, dadansoddi ac ymateb i adborth gan staff. O fewn y trosolwg o'r gofynion, rydym wedi datgan yr angen i gynnal data tueddiadau sy'n ymwneud ag ymgysylltu a phrofiad gweithwyr er mwyn darparu parhad i Archwilio Cymru ac i'r Pwyllgor. Yn dibynnu ar ganlyniad yr ymarfer caffael, byddwn yn gwneud penderfyniadau ar fodelau amgen. Rydym yn gobeithio y bydd gennym drefniadau ar waith yn gynnar yn 2023-24 a fydd yn ein galluogi i olrhain canfyddiadau staff a sylwi ar feysydd sy'n peri pryder, a mynd i'r afael â'r meysydd hynny, yn gyflymach.

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Archwilio Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth am y gwaith a wnaed i wella ansawdd archwilio, gan gynnwys manylion y gweithgaredd sicrhau ansawdd penodol a gynhaliwyd ers sgôr 2021-22 a nifer yr archwiliadau a aseswyd o ran sicrwydd ansawdd.

Nodir gwybodaeth am ansawdd ein harchwilio yn ein hadroddiadau ansawdd blynyddol, sydd ar gael ar dudalen [Sefydliad Agored a Thryloyw](#) ein gwefan.

Rydym yn crynhoi isod bwyntiau allweddol o'r adroddiad hwn, a byddem yn hapus eu trafod ymhellach gyda'r Pwyllgor.

[Gwaith a wnaed i wella ansawdd archwilio](#)

Ymhlith y mentrau allweddol diweddar mae'r canlynol (mae'r cyfeiriadau at yr Adroddiad Ansawdd Archwilio):

- gwella ein dulliau archwilio drwy:
 - cymhwyso, am y tro cyntaf, safonau / egwyddorion archwilio perfformiad a gyhoeddwyd gan yr International Organisation of Supreme Audit Institutions (INTOSAI) (paragraff 36);
 - cyflwyno safon bellgyrhaeddol newydd ar asesiad risg archwilio¹ ar gyfer ein harchwiliadau yn ystod 2022-23 (paragraff 38) (mae'r gwaith hwn wedi'i wneud ar y cyd â Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon er mwyn gwneud y defnydd mwy effeithiol o'n hadnoddau ar y cyd);
- datblygu platfformau archwilio mewnol, ar system SharePoint i gynyddu cysondeb o ran dogfennau, o ran cymhwyso dulliau archwilio ac o ran cynnwys gwiriadau ansawdd yn ein systemau (paragraffau 43-45);
- buddsoddiad parhaus mewn dysgu a datblygu (paragraffau 46-52), sy'n cynnwys mentrau sylweddol i gefnogi'r datblygiadau o ran dulliau archwilio a phlatfformau archwilio;
- datblygiad parhaus yn ein gwaith dadansoddi data i gael mewnwelediadau cyfoethocach i gefnogi ein gwaith archwilio (paragraff 41);
- mentrau newydd i wella'r gefnogaeth a gawn gan arbenigwyr allanol mewn meysydd cymhleth, megis prisiadau eiddo (paragraff 23);
- ehangu ein rhaglenni monitro ansawdd allanol, gan gynnwys ymestyn y drefn i archwilio perfformiad a chynyddu nifer y ffeiliau a adolygwyd (Rhan 3);
- cyflwyno proses newydd i ddadansoddi achos gwraidd er mwyn nodi anghenion dysgu craidd pan fydd problemau yn codi (paragraffau 52 ac 81);
- datblygu system ddiwygiedig o reoli ansawdd (paragraffau 73 – 75); a
- buddsoddi yn ein 'tîm technegol' i gefnogi ansawdd ein gwaith archwilio a'r datblygiadau a'r mentrau a amlinellir uchod (gweler yr adran Digonolrwydd Adnoddau yn y Sylwebaeth Annibynnol – tudalen 9).

Trefniadau sicrhau ansawdd

Fel y mae ein Hadroddiad Ansawdd Archwilio yn nodi, rydym yn defnyddio model tair llinell o sicrwydd i ddisgrifio sut rydym yn cyflawni ansawdd archwilio.

Mae'r drydedd linell sicrwydd (tudalennau 21-24) yn cynnwys y trefniadau hynny sy'n rhoi sicrwydd annibynnol ynghylch effeithiolrwydd y ddwy linell gyntaf o sicrwydd ac sy'n helpu i nodi cyfleoedd i wella'n barhaus.

¹ [ISA 315 Identifying and Assessing the Risks of Material](#)

Mae'r trefniadau hynny'n cwmpasu gweithgareddau eraill sy'n ymwneud ag ansawdd ar wahân i'r rhai yr adroddwyd yn ffurfiol arnynt fel rhan o'n trefn adrodd ffurfiol ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol, gan gynnwys:

- adolygiadau heb eu sgorio ar ansawdd ymgysylltu o ffeiliau archwilio, neu o rannau o ffeiliau archwilio a wnaed cyn i'r archwiliad gael ei gwblhau (paragraffau 66 i 67);
- adolygiadau ar thema heb eu sgorio sy'n edrych ar faterion penodol ar draws sawl archwiliad (paragraffau 64 i 65);
- adolygiadau gan gymheiriaid o adroddiadau archwilio perfformiad gan asiantaethau archwilio eraill y DU (paragraff 63); ac
- adolygiadau o'r newydd o ffeiliau cyfan ar ôl cwblhau'r gwaith archwilio (paragraffau 55 i 63).

Yr adolygiadau o'r newydd sy'n cael eu sgorio a'u cipio yn ein hadroddiad Dangosyddion Perfformiad Allweddol ffurfiol. Mae'r adolygiadau hyn yn gylchol ac yn ddiweddar maent wedi dilyn cylch archwiliadau cyfrifon. Adroddir am ganlyniadau'r rownd ddiweddaraf o adolygiadau yn seiliedig ar gyfrifon 2020-21 yn Rhan 3 o'r Adroddiad Ansawdd Archwilio. Mae'r rownd nesaf o adolygiadau (ar gyfer archwiliadau cyfrifon 2021-22) wedi dechrau yn ystod yr wythnosau diwethaf (er, fel y nodwyd o dan argymhelliad 8, nid yw archwiliadau llywodraeth leol wedi'u cwblhau eto). Bydd canlyniadau'r adolygiadau hyn yn cael eu hadrodd yn ein hadroddiad ansawdd archwilio nesaf ac yn Dangosyddion Perfformiad Allweddol ein cynllun blynyddol.

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Archwilydd Cyffredinol yn hysbysu Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid yn ffurfiol ac yn ysgrifenedig os na all gwblhau archwiliad o fewn y dyddiad cau statudol o bedwar mis.

Byddwn yn rhoi gwybod i Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid yn ysgrifenedig os na allwn gwblhau archwiliad o fewn y dyddiad cau statudol o bedwar mis sy'n berthnasol i gyfrifon Llywodraeth Cymru. Byddwn hefyd yn gweithio gyda'r Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus i ddatblygu protocol ar gyfer adrodd mewn perthynas â chyfrifon hwyr sefydliadau eraill, pan fydd terfynau amser statudol gwahanol yn berthnasol.

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Archwilio Cymru:

- yn esbonio'r rhesymeg y mae'n bwriadu ei mabwysiadu ynghylch rhannu'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag archwilio Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2020-21, a
- phan benderfynir ar y sefyllfa derfynol, mae'n rhoi manylion cyfanswm cost archwilio Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2020-21, gan gynnwys faint sy'n ychwanegol at yr amcangyfrif o ffioedd, sut y mae'r

costau ychwanegol wedi cael eu rhannu ac esboniad os yw'r dull yn wahanol i'r rhesymeg.

Costiodd archwiliad cyfrifon Llywodraeth Cymru 2020-21 £161 mil yn fwy na'r ffi a amcangyfrifwyd. Byddwn yn dosbarthu anfoneb ychwanegol i Lywodraeth Cymru am ychydig dros hanner y swm yma (£81 mil). Mae hyn yn ymwneud ag amser staff ychwanegol sydd ei angen i gwblhau'r archwiliad. Mae gweddill y gost o £80k (ar gyfer drafftio Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol) yn cael ei ariannu o gyllid CGC rydym wedi ei dderbyn at y diben hwnnw eleni.

Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Archwilio Cymru yn darparu rhagor o fanylion ynglŷn â sut mae'n gweithredu newid yn y sefydliad ac yn benodol ar ganlyniad yr ymarfer dysgu ôl-brosiect ynglŷn â newidiadau i'r Lwfans Teithio, gan gynnwys sut bydd y gwersi a ddysgwyd yn cael eu cymhwyso wrth adleoli swyddfa Caerdydd a fydd yn digwydd yn fuan.

Mae gan Archwilio Cymru dîm rhaglen newid bach, pwrpasol² sy'n cefnogi gweithredu newidiadau mawr, trawsbynciol er mwyn sicrhau bod manteision busnes yn cael eu gwireddu. Mae'r tîm i gyd yn rheolwyr newid a phrosiectau cymwys sy'n gweithio ochr yn ochr ag uwch reolwyr a thimau ar draws y busnes. Ar ôl gweithredu newidiadau i'r lwfans teithio, cynhaliwyd ymarfer dysgu ôl-brosiect a defnyddiwyd y canfyddiadau hyn wrth lunio'r gwaith o weithredu'r prosiect 'Ein Gweithleoedd yn y Dyfodol' ac wrth gyflwyno'r system Amser a Rheoli Adnoddau newydd.

Dysgu allweddol a amlygwyd:

- pwysigrwydd bod yn glir o ran y rhesymau dros newid;
- bod ag llinell amser ar gyfer y broses newid gyfan i sicrhau bod digon o amser ar gael ar gyfer pob elfen gan gynnwys ymgysylltiad staff ;
- sicrhau bod cynlluniau'n cael eu datblygu ar gyfer senarios gwahanol i gadw ffocws ar y canlyniad a ddymunir;
- bod yn ystwyth wrth weithredu, cyfathrebu, ac ymgysylltu;
- defnyddio pob agwedd ar arweinyddiaeth ar draws y sefydliad; a
- sicrhau bod y Bwrdd yn cymryd rhan ym mhob agwedd ar y broses newid.

Mae pob un o'r pwyntiau dysgu hyn wedi'u cynnwys yn y dull gweithredu ar gyfer prosiect Ein Gweithleoedd yn y Dyfodol.

² 4 aelod o staff

Mae'r holl brosiectau newid mawr yn cael eu llywodraethu drwy Fwrdd Rhaglen Newid sy'n ystyried achosion busnes a goblygiadau o ran adnoddau, gan olrhain cynnydd a monitro gwireddu budd-daliadau.

Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Archwilio Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth am y broblem dechnegol, ynghylch asedau seilwaith a'r effaith bosibl ar gyflawni ei waith archwilio.

Mwy o wybodaeth

Mae hwn yn fater sy'n cael effaith ar gyfrifon ac archwiliad cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Mae wedi arwain at Weinidogion Cymru yn gwneud Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2022 ar 29 Tachwedd 2022.

Mae paragraffau 4.3 i 4.5 o'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau (sydd ar gael trwy'r ddolen uchod) yn darparu'r cefndir canlynol:

“4.3 Until 2022, the accounting treatment of infrastructure assets has not generally been an issue. There has, however, been increased scrutiny of the audits of local authority accounts in recent years, particularly on the accounting for property, plant and equipment. As a consequence, there is an increased requirement for local authorities to provide auditors with evidence in respect of infrastructure assets, specifically in terms of how the replacement of a component of an infrastructure asset is accounted for. In accordance with proper practices, when a component of an infrastructure asset is replaced, an amount representing the remaining value of the replaced component should be removed (derecognised) from the balance sheet. This may be nil if there is no residual value.

“4.4 The issue is that, due to significant historical information deficits, many authorities are unable to provide sufficient evidence of the value of replaced components of infrastructure assets when they are derecognised. This is particularly the case in relation to roads. Some of these issues date back to 1994, when these assets were first brought onto local government balance sheets. Furthermore, the reporting requirements have not been consistent over time: it is only since 2010-11 that the Code has required all replacement costs to be capitalised and replaced components to be derecognised.

“4.5 This issue has contributed to delays in the completion of 2021-22 local authority audits as both local authorities and auditors have sought a resolution. Without resolution, there is a significant risk that many local authority financial statements could be subject to qualified audit opinions in this area, whereby the auditor is unable to give an opinion that the accounts are not misstated. It is anticipated that this may also lead to delays to future audits.”

Effaith ar gyflwyno archwiliadau

Mae'r mater wedi cael effaith sylweddol ar gwblhau gwaith archwilio 2021-22, wrth i CIPFA³ geisio'n aflwyddiannus i ddatblygu datrysiad i fynd i'r afael â'r mater. Mae'r Rheoliadau a amlinellir uchod, yn rhoi ateb tymor byr tra bod CIPFA yn ceisio datblygu datrysiad mwy hirdymor.

Wrth wneud y Rheoliadau hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi awgrymu wrth gyrrff llywodraeth leol y dylent '... ceisio cyflawni cyhoeddiad o gyfrifon archwilio terfynol erbyn 31 Ionawr 2023.' Mae hyn ddeufis ar ôl y targed gwreiddiol o 30 Tachwedd 2022.

Yn anffodus, mae'n anochel y bydd archwiliadau 2021-22 yn cael effaith ar rai 2022-23 gan y byddant yn cael eu dechrau yn hwyrach nag a fyddai fel arfer yn digwydd.

Rydym yn cymryd camau i ddod â'r amserlen adrodd ac archwilio yn ôl i'r sefyllfa hanesyddol. Fodd bynnag, mae'r gwaith ar yr ymdrechion hyn yn fwy cymhleth oherwydd cyflwyno dull archwilio newydd ar gyfer archwiliadau 2022-23 yn unol â safonau archwilio proffesiynol⁴, mae hyn yn achosi ansicrwydd o ran lefel yr ymdrech waith a mewnbwn ei staff sydd ei hangen ym mlwyddyn gyntaf ei weithredu.

Rydym yn hapus i roi'r newyddion diweddaraf i'r Pwyllgor am y cynnydd ar draws y sector llywodraeth leol wrth ddod â'r amserlen cwblhau ac archwilio cyfrifon yn ôl i'r sefyllfa hanesyddol.

³ Gweler er enghraifft: [Urgent Infrastructure Assets Task and Finish Group | CIPFA](#)

⁴ Cyfeiriwch at baragraffau 47 i 51 o'n cyhoeddiad 'Gwybodaeth ategol ar gyfer amcangyfrif Incwm a Threuliau Archwilio Cymru am y flwyddyn i ben ar 31 Mawrth 2024' (Hydref 2022).

Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn darparu dadansoddiad o'r eitemau nad ydynt yn arian parod o fewn ei waelodlin adnoddau a chymodi rhwng arian parod a llinell sylfaen adnoddau a nodwyd yn Rhan 2 o'r amcangyfrif ar gyfer ei chyllid Cronfa Gyfunol Cymru ar gyfer 2023- 24 ac yn Amcangyfrifon y dyfodol

Fel y gofynnwyd amdano, gweler isod grynodedb o'r symudiadau rhwng yr Amcangyfrif Atodol cyntaf ar gyfer 2022-23 a'n Hamcangyfrif ar gyfer 2023-24 yn nhermau arian parod ac adnoddau gan gynnwys reffeniw a gwariant cyfalaf a symudiadau o ran cyfalaf gwaith. Byddwn yn cynnwys y dadansoddiad ychwanegol hwn yn Amcangyfrifon y dyfodol.

Wrth wneud y gwaith cysoni hwn rydym wedi nodi gwall yn Rhan 1 yn ein Hamcangyfrif mewn perthynas â'r addasiadau sydd eu hangen ar gyfer IFRS16. O ganlyniad i'r gwall hwn, cafodd ein gofyniad arian parod net ei or-ddatgan gan £280,000 (nid oes newid yn y gofyniad am adnoddau). Darperir Amcangyfrif Rhan 1 wedi'i gywiro ochr yn ochr â'r llythyrr hwn.

	Arian parod £'000	Adnoddau £'000
Amcangyfrif 2022-23	8,684	8,254
Cynnydd o ran costau staff (cyflog)	702	702
Cynnydd o ran costau staff (ISA315)	800	800
Llai o gostau nad ydynt yn gostau staff	-203	-203
Costau cylchol NFI	-130	-130
Effaith IFRS16	0	80
Cynnydd o ran incwm ffioedd	-1,051	-1,051
Symudiadau mewn cyfalaf gwaith	-160	-
Amcangyfrif 2023-24	8,642	8,452

Argymhelliad 10. Mae'r Pwyllgor yn argymell, ar gyfer holl Amcangyfrifon y dyfodol, fod Archwilio Cymru yn darparu'r un lefel o fanylion ar gyfer y cymorth y mae'n ei geisio ar sail adnoddau ac arian parod, gan gynnwys gwybodaeth am ei safle gwaelodlin ac am unrhyw newidiadau i'w gyllidebau

Byddwn yn sicrhau y bydd y dadansoddiad o newidiadau a ddarperir mewn Amcangyfrifon y dyfodol yn cael eu dangos ar gyfer adnoddau ac arian.

Argymhelliad 11. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Archwilio Cymru yn ystyried sut y gellir gwella cyflwyno'r Amcangyfrif yn ystod y blynyddoedd i ddod er mwyn:

- **cymharu'r adnodd a'r arian parod y gofynnwyd amdano gyda'r gyllideb a gymeradwywyd ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol, a phan nad yw hyn yn wir, dylid nodi hyn yn glir yn yr Amcangyfrif, gyda rhesymau i esbonio pam nad oedd modd gwneud hynny;**
- **rhoi manylion pellach a dadansoddiad o sut y bydd cynnydd mewn elfennau penodol o gyllid yn cael ei wario.**

Byddwn yn ystyried y cyflwyniad o'r wybodaeth ariannol yn yr Amcangyfrif i ystyried sut y gallwn wahaniaethu'n glir rhwng newidiadau mewn cyllidebau adnoddau a chyllidebau arian parod. Cynhwysir gwybodaeth ychwanegol am resymau dros gynyddu yn fwy na'r hyn a ddarparwyd eisoes yn Amcangyfrifon y dyfodol.

Argymhelliad 12. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Archwilio Cymru:

- **yn darparu dadansoddiad o'r symudiadau o £550,000 mewn ffigur cyfalaf gweithio, ac**
- **yn cynnwys mwy o wybodaeth am symudiadau mewn cyfalaf gweithio yn Amcangyfrifon y dyfodol, gan gynnwys manylu ar eu pwrpas ac i beth y mae pob symudiad yn berthnasol.**

Mae symudiadau mewn cyfalaf gweithio a gynhwysir yn yr Amcangyfrif yn gwneud darpariaeth ar gyfer newidiadau disgwylidig mewn balansau diwedd blwyddyn ar ddyledwyr, ar gredydwyr ac ar ddarpariaethau. Mae'n anodd iawn amcangyfrif y symudiadau gwirioneddol 5 mis cyn diwedd y flwyddyn ariannol ac felly mae gofyniad tybiannol o £100,000 i £200,000 yn cael ei ganiatáu yn gyffredinol yn ein Hamcangyfrifon. Mae unrhyw falans arian parod sy'n deillio o hynny yn cael ei ddychwelyd i WCF ar ddiwedd y flwyddyn drwy addasiad gweinyddol.

Ar gyfer 2022-23 cynyddwyd yr addasiad hwn i £710,000 er mwyn caniatáu i'r symudiad hysbys o ran darpariaeth ar gyfer prynu'r Lwfans Teithio a gynhwysir o fewn ein cyfrifon 2021-22.

Ar gyfer 2023-24 rydym wedi amcangyfrif symudiad o £550,000 i alluogi newidiadau diwedd blwyddyn arferol o ran dyledwyr a chredydwyr ond hefyd y gofyniad i ddefnyddio rhan o'n darpariaeth ar gyfer dadfeiliadau (cyfanswm o £650,000) pan fyddwn yn gadael ein swyddfeydd ar Heol y Gadeirlan. Mae'r swm hwn yn destun trafod masnachol ac felly ni ellir ei ddatgelu'n llawn ar hyn o bryd.

Argymhelliad 13. Os yw Archwilio Cymru'n dymuno dilyn y newid arfaethedig i'r cyllid ar gyfer y gwaith o archwilio perfformiad lleol, mae'r Pwyllgor yn argymhell ei fod yn:

- rhoi gwybodaeth bellach am yr ymholiadau a godwyd gan Lywodraeth Cymru ac am gynnydd y trafodaethau hynny, wrth iddynt ddigwydd, ac
- yn gohirio'r cynnig tan Amcangyfrif 2024-25.

Derbyniwyd. Rydym wedi cynnal trafodaethau cychwynnol gyda Swyddogion Llywodraeth Cymru dros yr wythnosau diwethaf ynglŷn â'r newid arfaethedig i'r cyllid. Roedd y trafodaethau hyn yn canolbwyntio'n bennaf ar eu pryderon am lefel y cynnydd mewn ffioedd y flwyddyn nesaf a'r camau rydym wedi bod yn eu cymryd yn ystod y blynyddoedd diwethaf i leihau ein sylfaen costau ac i sicrhau effeithlonrwydd yn fewnol. Rydym wedi cytuno i barhau â'r sgysiau hyn yn y Flwyddyn Newydd a byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor

Argymhelliad 14. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Archwilio Cymru yn ystyried ffyrdd pellach y gallai ddarparu cymorth ychwanegol i staff ar gyflogau is a/neu staff a allai gael anawsterau wrth i effeithiau'r cynnydd mewn costau byw gydio ac yn cymryd camau i werthuso ei becyn cymorth er mwyn sicrhau ei fod yn cyrraedd y rhai sydd ei angen fwyaf.

Byddwn yn archwilio gyda'r Undebau Llafur, drwy ein trafodaethau cyflog, y sylfeini posibl ar gyfer bandiau cyflog is ac unrhyw fecanweithiau eraill y gallem eu rhoi ar waith i gefnogi staff ar gyflogau is. Fodd bynnag, nid ydym eto wedi derbyn eu cais am gyflog ar gyfer 2023-24 a byddwn yn ystyried hyn maes o law.

Cynhaliwyd adolygiad o'r budd-daliadau nad ydynt yn dâl yn ddiweddar a thrwy'r adolygiad hwnnw byddwn yn darparu cefnogaeth i'r holl staff ynghylch materion sy'n ymwneud ag arian parod ac ag effeithiau costau byw. Bydd y cyngor a'r cymorth yn cael ei ddarparu drwy Swyddfa'r Cabinet a bydd ar gael er mwyn i staff gael mynediad atynt. Yn ogystal, gellir cael mynediad at lesiant ariannol trwy ein Rhaglen Cymorth i Weithwyr. Rydym hefyd yn cynnig cynllun gostyngiadau siopa i staff trwy ein darparwr buddion, Edenred. Rydym yn mynd ati i hyrwyddo'r rhain i'r staff ac yn eu hannog i'w ddefnyddio.

Argymhelliad 15. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Archwilio Cymru yn dychwelyd y cyllid sydd heb ei wario ar gyfer cyfraniadau Yswiriant Gwladol o 2022-23 i Gronfa Gyfunol Cymru ac yn addasu'r waelodlin ar gyfer 2023-24 yn unol â hynny.

Rydym wedi amcangyfrif y bydd yr arbedion sy'n ymwneud â newidiadau i gyfraniadau Yswiriant Gwladol yn dod i £51,000 yn 2022-23. Rydym yn gweithio'n galed i wireddu ein rhagamcanion incwm ar gyfer y flwyddyn er bod lefelau salwch uwch na'r disgwyl yn gysylltiedig â Covid wedi cael effaith arnynt. Effeithid arno ymhellach pe byddai gweithredu diwydiannol yn digwydd cyn diwedd y flwyddyn. Gan gofio'r cafeatai hyn, ein bwriad yw dychwelyd hyn, ynghyd ag unrhyw arian arall sydd heb ei wario ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Fel yr esboniwyd i'r Pwyllgor, roedd amseru ein Hamcangyfrif ar gyfer 2023-24 yn ein galluogi i adlewyrchu'r newidiadau hyn yn yr Amcangyfrif a ystyriodd y Pwyllgor ym mis Tachwedd.

Adlewyrchir hyn yn y cynnydd mewn costau staff a ddangosir yn Arddangos 1 o Ran 2 o'r Amcangyfrif fel a ganlyn:

	CGC £'000	Ffioedd £'000	Cyfanswm £'000
Darpariaeth ar gyfer dyfarniad tâl	307	482	789
Newidiadau eraill ⁵	22	37	59
Gostyngiad mewn cyfraddau YG	(57)	(89)	(146)
Cyfanswm	272	430	702

Argymhelliad 16. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Archwilio Cymru yn rhoi rhagor o fanylion am yr adborth a gafwyd ar ei waith perfformio ac yn rhoi diweddariad ar y broses o fabwysiadu safonau rhyngwladol o arfer gorau yn y maes hwn, gan gynnwys ei ddisgwyliadau o'r hyn y bydd hyn yn ei gyflawni.

Ar hyn o bryd, nid ydym yn dadgyfuno adborth rhanddeiliaid rhwng archwilio cyfrifon a gwaith archwilio perfformiad. Mae ffigyrau yn ein hadroddiad blynyddol 2021-22 yn dangos ein bod yn perfformio'n dda yn nhermau'r hyn y mae rhanddeiliaid yn ei feddwl am ein gwaith:

⁵ Cynyddrannau staff a mwy o arbedion rheoli swyddi gwag

- Mae 95% o'r farn ein bod yn gyfathrebwr annibynnol ac awdurdodol ar lywodraethu a stiwardio arian cyhoeddus ac asedau.
- Roedd 96% yn credu bod ein gwaith yn rhoi cipolwg defnyddiol na fyddent wedi'i gaffael fel arall.
- Mae 91% yn credu bod ein gwaith wedi arwain at welliannau wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

Mae archwiliad perfformiad yn annog cyrff archwilio i ganolbwyntio ar eu rôl fel ceidwaid arian cyhoeddus, gan ei wario'n ddoeth ar ran dinasyddion a chael eu dal yn atebol am hynny. Mae ein gwaith yn hyrwyddo economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, yn ogystal ag atebolrwydd a thryloywder.

Nod ein trefniadau ansawdd yw sicrhau bod yr holl waith archwilio perfformiad yn ceisio sicrhau'r buddion uchod. Bydd mabwysiadu canllawiau INTOSAI yn ein cefnogi i wneud hynny ac yn cyflwyno trefn ansawdd sy'n rhoi mwy o bwyslais ar effaith yn hytrach nag ar gydymffurfio â phrosesau. Er enghraifft, gan sicrhau'r canlynol:

- rydym yn dewis y pynciau cywir i'w harchwilio sy'n ychwanegu gwerth ac sy'n gallu cael effaith;
- mae gan dimau archwilio'r sgiliau sydd eu hangen a'u bod yn cael eu goruchwylio'n briodol;
- sefydlir amcanion clir ar gyfer yr archwiliad;
- mae tystiolaeth archwilio yn gadarn ac wedi cael ei herio'n addas;
- mae allbynnau'n bodloni ein safonau mewnol ac yn cael effaith;
- rydym yn meddwl am sut i gael yr effaith fwyaf a sicrhau y manteisir i'r mwyaf ar ein hallbynnau; ac
- rydym yn adfyfrio ar ein gwaith, yn cipio'r wybodaeth honno ac yn ei bwydo yn ôl i'n hymarfer archwilio perfformiad.

Lansiwyd ein safonau archwilio perfformiad INTOSAI newydd ar 30 Tachwedd 2022. Rydym wedi pennu Rhagfyr 2022 yn fis ymglyfarwyddo i gydweithwyr. Drwy gydol mis Rhagfyr byddwn yn darparu sesiynau hyfforddi gorfodol i gyflwyno'r prif newidiadau. Rydym yn disgwyl i'r holl archwiliadau ddechrau dilyn safonau INTOSAI newydd o fis Ionawr 2023. Mae'r newid i safonau newydd INTOSAI yn newid sylweddol ac oherwydd hyn rydym yn disgwyl y bydd yn cymryd y rhan fwyaf o 2023 i ymgorffori'r newidiadau. Rydym yn cefnogi cydweithwyr drwy'r cyfnod pontio hwn gyda rhaglen o weithgareddau dysgu a datblygu sy'n cwmpasu 2023 i gyd.

Argymhelliad 17. Yn dilyn y tendro ar gyfer hyfforddiant proffesiynol ar gyfrifeg, mae'r Pwyllgor yn argymhell y caiff unrhyw gyllid dros ben ei ddychwelyd i Gronfa Gyfunol Cymru a'i dynnu o'r waelodlin

Bydd unrhyw gyllid nad oes ei angen yn cael ei ddychwelyd ar ddiwedd 2023-24 ac yn cael ei ddangos yn y waelodlin ar gyfer Amcangyfrifon y dyfodol.

Argymhelliad 18. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Archwilio Cymru yn darparu mwy o fanylion a dadansoddiad o sut y bydd elfennau penodol o'i gyllid cyfalaf yn cael eu gwario yn 2023-24 a hefyd yn cynnwys yr un lefel o fanylion yn holl Amcangyfrifon y dyfodol.

Mae'r cyllid ar gyfer gweddill ein rhaglen gyfalaf dreigl 5 mlynedd yn ddangosol ar hyn o bryd, a bydd mwy o fanylion yn cael eu darparu wrth i ni weithio drwy'r cynllun cyflenwi ar gyfer ein strategaeth yn Amcangyfrifon y dyfodol.

Argymhelliad 19. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Archwilio Cymru yn rhoi diweddariad ar y datblygiadau a fydd yn gallu ymestyn dyletswyddau sy'n gysylltiedig â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, pan ddaw'n amlwg beth fydd y goblygiadau i Archwilio Cymru

Mae staff Archwilio Cymru yn trafod gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ynglŷn â chymau nesaf Llywodraeth Cymru ar ôl ei hymgyngoriad. Mae hyn yn cynnwys darparu gwybodaeth am yr opsiynau a'r amcangyfrif costau sy'n gysylltiedig â gwaith i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol mewn unrhyw gyrrff newydd, gan ganolbwyntio'n benodol ar drefniadau ar gyfer cyflawni'r dyletswyddau yn ystod y cyfnod adrodd presennol sy'n weddill (hyd at ddechrau Mai 2025). Nodwyd yn ein hymateb i'r ymgynghoriad y byddem hefyd yn croesawu trafodaeth bellach gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â chyfrifoldebau adran 15 yr Archwilydd Cyffredinol fel rhan o werthuso ôl-ddeddfwriaethol arfaethedig Llywodraeth Cymru a chyda'r bwriad o'n galluogi i optimeiddio cymesuredd, darbodusrwydd ac effaith ein dull gweithredu, yn enwedig yng nghyd-destun nifer fwy o gyrrff sy'n destun y ddyletswydd llesiant. Gobeithiwn y gall gwaith gwerthuso ôl-ddeddfu Llywodraeth Cymru fynd yn ei flaen mewn pryd i alluogi adfyfrio cyn y cyfnod adrodd pum mlynedd nesaf. Fel y nodwyd yn ein hymateb i'r ymgynghoriad, yn ddelfrydol efallai, byddai'r gwerthusiad hwn wedi'i wneud cyn neu ochr yn ochr ag ystyried ymestyn y ddyletswydd llesiant.

Mae croeso i chi gysylltu â ni os gallwn fod o gymorth trwy ddarparu eglurhad pellach.

Yr eiddoch yn gywir,



LINDSAY FOYSTER
Cadeirydd, Swyddfa Archwilio
Cymru



ADRIAN CROMPTON
Archwilydd Cyffredinol Cymru



Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2024

Hydref 2022

Wedi'i baratoi ar y cyd a'i osod gerbron y Senedd dan Adran 20(1) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

Lindsay Foyster

Cadeirydd Archwilio
Cymru

Adrian Crompton

Archwilydd Cyffredinol
Cymru

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Ar gyfer pob blwyddyn ariannol, mae Adran 20 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru fynd ati ar y cyd i baratoi amcangyfrif o incwm a threuliau Swyddfa Archwilio Cymru a gosod yr amcangyfrif hwnnw gerbron y Senedd o leiaf bum mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi.

Yn unol ag Adran 20 y Ddeddf, rhaid i bob amcangyfrif gwmpasu (ymhlith pethau eraill) yr adnoddau y mae ar yr Archwilydd Cyffredinol eu hangen i arfer ei swyddogaethau statudol.

Gall Pwyllgor Cyllid y Senedd wneud unrhyw addasiadau i'r amcangyfrif sy'n briodol yn ei dyb ef, ond ni ellir gwneud unrhyw addasiad oni bai:

- Yr ymgynghorwyd â'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru; a
- bod unrhyw sylwadau a wnaed gan y naill neu'r llall wedi cael eu cymryd i ystyriaeth.

Bob blwyddyn rhaid i Weinidogion Cymru gyflwyno cynnig yn y Senedd dan Adran 125 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n cynnwys awdurdodi'r adnoddau sydd i'w defnyddio (gan gynnwys adnoddau cronrus) a thaliadau sydd i'w gwneud i Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r Amcangyfrif hwn yn nodi'r symiau sydd i'w cynnwys mewn perthynas â Swyddfa Archwilio Cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Cynnwys

Rhagair	4
Cwmpas y Gyllideb 2022-23	6



Rhagair

Mae Archwilio Cymru'n bodoli i roi hyder i'r Senedd a phobl Cymru mewn sector cyhoeddus sy'n perfformio'n uchel ac sy'n atebol.

Ein Hamcangyfrif ar gyfer 2023-24 yw Cwmpas y Gyllideb a gynhwysir yn y ddogfen hon. Byddwn yn darparu gwybodaeth ategol ar wahân am yr Amcangyfrif i'r Pwyllgor Cyllid ddeall sut y byddwn yn defnyddio'r cyllid y gofynnir amdano.

Fe wnaeth y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol nodi'r ansicrwydd parhaus ynghylch gwariant yn y dyfodol yn ei llythyr dyddiedig 14 Gorffennaf 2022. Rydym yn cydnabod hyn; ond rydym hefyd yn ymwybodol o bwysau chwyddiant, yn anad dim ar gostau staffio a'r angen i ymateb i safon archwilio newydd – ISA315 – yr ydym yn disgwyl iddi gael effaith sylweddol ar gost ein gwaith archwilio ac, o ganlyniad, ar y ffioedd y bydd angen i ni eu codi am y gwaith hwnnw. Cyhoeddwyd yn ddiweddar y gallai ffioedd archwilio yn Lloegr ar gyfer cyrff llywodraeth leol godi gymaint â 150%.

Am y rhesymau hyn, mae ein Hamcangyfrif yn caniatáu cynnydd yn ein galwad ar WCF am Archwilio Cymru o ychydig dan 3% ond cynnydd mwy sylweddol yn ein ffioedd archwilio cyfrifon sy'n gysylltiedig â rhoi ISA315 ar waith. Gyda'i gilydd bydd cyfanswm ein cyllideb ar gyfer y flwyddyn yn cynyddu 5.4%.

Mae ein rhaglen eang o waith gwerth am arian yn hanfodol i atebolrwydd seneddol cadarn trwy Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Pwyllgor Cyllid a Phwyllgorau eraill y Senedd. Rydym yn archwilio cyfrifon a threfniadau llywodraethu dros 800 o gyrff cyhoeddus ledled Cymru, gan ddarparu'r prif ddull sicrwydd ynghylch sut y mae arian cyhoeddus yng Nghymru'n cael ei reoli. O Lywodraeth Cymru ei hun i'r cyngor cymuned lleiaf, trwy bron pob maes y darperir gwasanaethau cyhoeddus ynddo, gall yr Archwilydd Cyffredinol ddilyn y bunt gyhoeddus ble bynnag y caiff ei gwario.

Rydym yn llwyr ymwybodol o'n cyfrifoldeb tuag at rannau eraill o'r sector cyhoeddus i gyfyngu ar ein costau gweithredu ein hunain a'r ffioedd a godir gennym, ar yr amod nad yw hynny'n peryglu ansawdd archwilio a'r sicrwydd y gallwn ei ddarparu. Mae ein gwybodaeth ategol yn nodi manylion yr arbedion yr ydym yn eu disgwyl ar ein costau teithio ac adeiladau sy'n helpu i wrthbwysu codiadau disgwylidiedig mewn costau staff.

Ar gyfer 2023-24 rydym unwaith eto wedi gosod targedau sy'n gryn her ar gyfer arbedion o reoli swyddi staff gwag a meysydd gwariant eraill.

Mae ein [Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 2021-22](#) yn nodi ein hanes cyflawni ar gyfer y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Ym mis Mawrth eleni fe osodom ni ein [Cynllun Blynyddol ar gyfer 2022-23](#) gerbron y Senedd. Mae'r Amcangyfrif hwn yn sicrhau cyllid ar gyfer ein blaenoriaethau wrth edrych ymlaen ar gyfer 2023-24 ac yn darparu gofynion cyllido dangosol hyd at 2027-28. Bydd ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2023-24 yn cael ei osod gerbron y Senedd cyn mis Mawrth 2023.

Edrychwn ymlaen at drafod ein Hamcangyfrif gyda'r Pwyllgor Cyllid maes o law.



Lindsay Foyster

Cadeirydd Archwilio
Cymru



Adrian Crompton

Archwilydd Cyffredinol
Cymru



Cwmpas y Gyllideb 2023-24

Amcangyfrif o ofynion cyllidebol Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2024

- O dan Adran 125 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, rhaid i Weinidogion gyflwyno Cynnig Cyllidebol yn y Senedd i awdurdodi defnyddio adnoddau, cadw incwm a thynnu arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru ar gyfer rhai personau perthnasol, gan gynnwys Swyddfa Archwilio Cymru.
- Mewn perthynas â gwasanaethau a dibenion Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol yn y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2024, bydd Cynnig y Gyllideb yn awdurdodi:
 - swm yr adnoddau a all gael eu defnyddio yn y flwyddyn ariannol gan Swyddfa Archwilio Cymru (yn unol â'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn);
 - swm yr adnoddau sy'n cronni i Swyddfa Archwilio Cymru yn y flwyddyn ariannol, a all gael eu cadw yn hytrach na'u talu i mewn i Gronfa Gyfunol Cymru; a hefyd
 - y swm y gellir ei dalu allan o Gronfa Gyfunol Cymru i Swyddfa Archwilio Cymru.
- Caiff y gofynion hyn, y mae amrywioldeb ffrydiau incwm yn golygu na allant ond bod yn amcangyfrifon, eu crynhoi yn **Arddangosyn 1**.
- Caiff manylion sut yr ydym yn bwriadu defnyddio'r cyllid hwn i gyflawni archwilio cyhoeddus yng Nghymru yn 2023-24 eu nodi yn ein gwybodaeth ategol.

Arddangosyn 1: crynodeb o'r amcangyfrif o ofynion cyllidebol 2023-24

£'000

Adnoddau, ac eithrio adnoddau cronrus, i'w defnyddio gan Swyddfa Archwilio Cymru ar gyflawni swyddogaethau statudol Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol ac ar weinyddu Swyddfa Archwilio Cymru:

- Refeniw 8,142
- Cyfalaf 310

Adnoddau cronrus o ffioedd a thaliadau am wasanaethau archwilio, ardystio grantiau a gwasanaethau cysylltiedig; adennill costau eraill sy'n gysylltiedig â swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru; incwm amrywiol megis o gyhoeddiadau, cynadleddau, darparu gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol a thechnegol ac adennill costau a ysgwyddir ar gyfer trydydd parti – y cyfan i'w ddefnyddio gan Swyddfa Archwilio Cymru ar gyflawni swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol ac ar wasanaethau cysylltiedig a gweinyddu Swyddfa Archwilio Cymru.

16,133

Gofyniad arian parod net o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu'r symiau net sy'n dod yn ddyledus i'w talu yn y flwyddyn gan Swyddfa Archwilio Cymru.

8,642

- 5 Mae **Arddangosyn 2** yn cysoni cyfanswm cais Swyddfa Archwilio Cymru am adnoddau â'i ofyniad arian parod net ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2024.

Arddangosyn 2: cysoni'r gofyniad am adnoddau â'r gofyniad i dynnu arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru

£'000

Cais net am adnoddau – refeniw a chyfalaf

8,452

Addasiad nad yw'n arian parod – dibrisiant a thaliadau llog

(640)

Taliadau rhent ar brydlesi

280

Addasiad nad yw'n arian parod – symudiadau mewn cyfalaf gweithio

550

Gofyniad arian parod net o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu'r symiau net sy'n dod yn ddyledus i'w talu yn y flwyddyn gan Swyddfa Archwilio Cymru

8,642



Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau
ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru